PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol: | Councillor Merry(Chairperson)<br>Councillors Bowden, Hinchey, Jenkins, Lent, Lister, Molik a/ac Weaver |
| Swyddogion yn Bresennol | Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol), Debbie Martin-Jones (OM, Specialist Services) a/ac Sheila Davies (OM, Legal - Community) |
| Ymgynghorwyr oedd yn Bresennol | Jessica Brown (Young People's Representative) |

36 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Rose Whittle, Sureen Kutubi, Emma Phipps-McGill a Gilliam James (Ymgynghorwyr Pwyllgor)

37 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

38 : COFNODION

Cymeradwywyd a llofnodwyd cofnodion cyfarfod 16 Hydref gan y Cadeirydd yn amodol ar newid yng nghofnod 27 - dileu'r geiriau *‘a chadarnhaodd y bu cynnydd o 1 cartref yn 2017 i 5 cartref erbyn 2018/19’* a mewnosod y canlynol *‘mae cynlluniau ar waith i gael 5 cartref erbyn diwedd 2019’*

39 : GWASANAETHAU PLANT - CYFLWYNIAD / ADRODDIAD PERFFORMIAD GWASANAETHAU POBL IFANC

Croesawodd y Cadeirydd Jade Harrison (Cydlynydd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad Perfformiad Gwasanaethau Pobl Ifanc i Aelodau a oedd yn amlinellu meysydd yn gwneud yn dda, meysydd i'w datblygu a'r camau ymlaen:

Beth sy'n mynd yn dda:

- Dull aml-asiantaeth o weithio gyda phobl ifanc;
- Cefnogaeth cyhyd ag y mae ei hangen;
- Ymyriadau Arbenigol;
- Natur ddwys y gwasanaeth a ddarperir;
- Tîm sefydlog wedi ymrwymo i weithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau;

- Tîm sy'n deall anghenion pobl ifanc ac sy'n gallu meithrin perthynas dda a chreu newid.

Meysydd i'w datblygu:

- Alinio'r timau i wneud un gwasanaeth gofal cydlynol i’r glasoed yng Nghaerdydd;
- Datblygu fframwaith canlyniadau cyson ac effeithiol ac offer cysylltiedig i fesur canlyniadau'n effeithiol;
- Datblygu gweithlu gwell er mwyn sicrhau modelau cyson o weithio / defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Gwella cysylltiadau â Gwasanaeth Cymorth / Atal Cynnar
- Ehangu cwmpas “Think Safe!” i gynnwys mathau eraill o gam-fanteisio;
- Cynyddu cwmpas y therapïau sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd;
- Cynyddu argaeledd ‘cefnogaeth seibiannau byr’;
- Gwella'r mecanwaith i gynnwys pobl ifanc a'u teuluoedd wrth ddylunio, datblygu a gwella gwasanaethau'n barhaus;
- Sicrhau ein bod yn rhan annatod o gyflwyno ‘Dinas Gyfeillgar i Blant’ ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad i'w hawliau ac rydym yn gweithio mewn dull sy'n seiliedig ar hawliau.

Y Camau Nesaf:

- Ymgynghori ar y cynnig i alinio'r ‘gwasanaethau glasoed’ yn well;
- Gweithio gyda'r tîm rheoli i weithredu'r meysydd i'w datblygu a nodwyd;
- Gweithio gyda'r tîm perfformiad i fesur pa ddata y gellir ei gasglu a sicrhau y gall hyn fwydo i brosesau monitro perfformiad cadarn.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, gofyn am eglurhad neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd.  Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr Aelodau’r dull aml-asiantaethol o weithio gyda’r glasoed ac yn enwedig y cysylltiad rhwng darpariaeth “Think Safe!” a chysylltiadau â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI).  Hysbyswyd yr aelodau y gellid gwella rhannu gwybodaeth ymhellach ond bod y cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r GTI yn ddarlun sy'n gwella.

- Hysbyswyd yr aelodau bod ymgynghoriad gweithlu yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddod â'r gwahanol dimau at ei gilydd.  Mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

- Trafododd yr Aelodau'r angen i ddarparu cefnogaeth i roddwyr gofal a phwysigrwydd cydnabod eu pwysigrwydd. Mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol bod unigedd cymdeithasol yn fater difrifol i rai teuluoedd.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi'r cyflwyniad.

40 : DIWEDDARIAD AR HYFFORDDIANT YSGOLION CYFEILLGAR I BLANT SY'N DERBYN GOFAL

Croesawodd y Cadeirydd Nicola Holder (Cydlynydd Plant mewn Addysg) i'r cyfarfod a roddodd ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r Diweddariad Hyfforddiant Plant sy'n Derbyn Gofal.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr hyfforddiant Lefel 1 wedi cael ei gyflwyno i athrawon ac y byddant yn rhaeadru'r wybodaeth a'r hyfforddiant hwnnw yn eu hysgolion eu hunain.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Holodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor ymgymryd â'r hyfforddiant lefel 1.

- Hysbyswyd yr aelodau nad oedd ysgolion wedi derbyn yr hyfforddiant; mae tua 67% ar hyn o bryd. Nid yw'r hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol eto ond maes o law.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch lefelau'r hyfforddiant ac fe'u hysbyswyd bod 2 lefel arall, roedd lefel 2 yn hyfforddi ar gyfer uwch arweinwyr, roedd lefel 3 yn rhaglen fwy manwl eto. Mae'r nifer sy'n manteisio ar lefel 2 wedi bod yn dda.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi'r cyflwyniad.

41 : DIWEDDARIAD AR HYFFORDDIANT YSGOLION CYFEILLGAR CLA

The Chairperson welcomed Nicola Holder (Looked After Children in Education Co-ordinator) to the meeting who provided Members with an update in relation to the Children Looked After (CLA) Training Update.

Members were advised that the Level 1 training has been rolled out to teachers and they are to cascade that information and training within their own schools.

The Committee were invited to comment or raise questions on the information received. Those discussions were summarised as follows:

- Members queried whether it would be possible for the Committee to undertaken the level 1 training.

- Members were advised that not schools have taken up the training; it currently stands at about 67%. The training has not yet been provided for School Governors but it will be in due course.

- Members sought clarification about the levels of training and were advised that there were 2 other levels, level 2 was training for senior leaders, level 3 was a more in depth programme again. The take up in respect of level 2 has been good.

RESOLVED: That the presentation be noted.

42 : ADRODDIADAU BRIFFIO

Rhoddwyd yr adroddiadau briffio canlynol i'r Aelodau eu hystyried:

Adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol

Rhoddwyd cyflwyniad i aelodau yn amlinellu gwybodaeth mewn perthynas ag adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol o Ionawr 2019 a oedd yn amlinellu rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol, gofynion staffio, diweddariadau allweddol, gwybodaeth mewn perthynas â'r Protocol Datrys Anghydfodau, y broses ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc a’r camau nesaf ar gyfer y gwasanaeth.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi’r adroddiad.

Adroddiad Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi’r adroddiad.

Adroddiad Craffu Gwasanaethau Plant - Chwarter 2 2018

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi’r adroddiad.

Adroddiad Cwynion a Sylwadau - Chwarter 2 2018

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi’r adroddiad.

Adroddiad Arolygu Crosslands ac Adroddiadau Rheoliad 32

Ystyriwyd bod yr adroddiadau mewn perthynas â'r eitemau hyn wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad ym mharagraff 12 o Ran 4 a pharagraff 25 o Ran 5 o Atodlen A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

(i) Y câi’r cyhoedd eu heithrio tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried; ac

(ii) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

Adroddiadau Rheoliad 32 Tŷ Storrie

Ystyriwyd bod yr adroddiadau mewn perthynas â'r eitem hon wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad ym mharagraff 12 o Ran 4 a pharagraff 25 o Ran 5 o Atodlen A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

(iii) Y câi’r cyhoedd eu heithrio tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried; ac

(iv) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

43 : DIWEDDARIAD AR FFRYDIAU GWAITH AELODAU

Rhoddodd y Cynghorwyr Bowden a Lent ddiweddariad i'r Aelodau o ran y gwaith a wnaed mewn perthynas â'u ffrydiau gwaith penodol.

44 : DIWEDDARIAD YMWELIADAU AELODAU

PENDERFYNWYD: Nodi diweddariadau’r ymweliad.

45 : BLAENGYNLLUN/RHAGLEN WAITH

Dosbarthwyd copi o'r blaengynllun/rhaglen waith i'r Aelodau, a gytunodd y byddent yn ymateb gydag unrhyw bynciau eraill i'w hystyried.

46 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

47 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol Rhianta Corfforaethol ddydd Mawrth 2 Ebrill 2019 am 2.00pm

48 : DIWEDDARIAD YR ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Croesawodd y Cadeirydd Alys Jones (Rheolwr Gweithredol, Diogelu) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig (C&V RESCB 02/2014)

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd yr aelodau argymhellion 4 a 7 mewn perthynas â'r asesiadau risg a wnaed cyn darparu neu benderfynu pa ddefnydd o ffonau symudol y gellir cytuno arnynt a defnyddio technoleg yr 21ain ganrif i gynorthwyo â chydymffurfio â phaneli amlasiantaethol. Nodwyd nad yw'n broses wobrwyo, ond i gadw plentyn yn ddiogel. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod

cynhadledd wedi'i threfnu gyda datblygwr apiau sydd wedi bod yn gweithio ar ap y gellid ei ddefnyddio yn yr amgylchiadau hyn.

PENDERFYNWYD: Y dylid nodi'r diweddariad ar y Cynllun Gweithredu.

The meeting terminated at 4.20 pm